# CABINET

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ffioedd Cartrefi Gofal Annibynnol 2017-2018** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyo'r ffioedd canlynol ar gyfer 2017-18

| Categori gofal | £ yr wythnos |
|---|---|
| Preswyl | £507.45 |
| Preswyl - Dementia/EMI | £566.75 |
| Nyrsio | £587.23* |
| Nyrsio – Dementia/EMI | £617.93* |

*Nid yw'n cynnwys cyfraniad Iechyd

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. O dan Adran 35 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sy'n preswylio'n arferol yn yr ardal; sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra; ac / neu fod y Cyngor o'r farn fod rhaid diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael ei gam-drin neu esgeuluso, neu ei amddiffyn rhag y risg o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae Adran 34 o'r Ddeddf yn nodi y gall y Cyngor ddiwallu'r anghenion hyn drwy ddarparu llety preswyl.

2.2. Wrth ymgymryd â'r swyddogaethau yma, mae gofyn i Gyngor Gwynedd hefyd weithredu dan y Cyfarwyddiadau a Chanllawiau Llywodraethol - y rhai mwyaf perthnasol yw'r Cyfarwyddiadau Dewis Llety a "Bywydau Cyflawn, Cymunedau Cefnogol: Canllaw Fframwaith Comisiynu ac Arfer Dda". Hefyd y Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015, sy'n nodi fod gan unigolion yr

hawl i ddewis eu llety, os gall y Cyngor gwrdd ag anghenion yr unigolyn yn y llety o ddewis, os yw'r llety yn addas, ar gael, a'r darparwr yn cytuno i delerau'r Cyngor.

2.3. Pwrpas yr adroddiad yma yw gosod ffioedd bydd y Cyngor yn talu darparwyr cartrefi gofal annibynnol, pe leolir unigolion gan y Cyngor o fewn y cartrefi gofal hyn er mwyn diwallu eu hanghenion gofal a chymorth ym mlwyddyn ariannol 2017-18.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Mae Safon 10 y Canllaw Fframwaith Comisiynu yn gofyn i'r Cyngor fel Comisiynwyr fod wedi deall y gost o wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu contractio a'u darparu'n uniongyrchol, ac i weithredu mewn modd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd y gwasanaeth.

3.2. Mae Cyfraith Achos yn dangos y dylai comisiynwyr "ddeall" costau darparwyr a gweithredu er mwyn hyrwyddo cynaladwyedd y gwasanaeth; nad oes raid i Gynghorau osod ffi sy'n ad-dalu holl gostau'r darparwyr yn llawn; y dylai Comisiynwyr wneud ymholiadau ynghylch y gwir gostau o ddarparu gofal; bod natur a dwyster yr ymholiadau hynny yn fater i'r Cyngor benderfynu arno.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1. Mae'r gwaith a wnaed gan Grŵp Ffioedd Cartrefi Gofal Gogledd Cymru wedi cynnwys gwneud ymholiadau perthnasol ynghylch gwir gost y gofal. Mae hyn wedi cynnwys edrych ar faterion megis Isafswm Cyflog Cenedlaethol, cyfraddau chwyddiant, cyfraddau enillion ar fuddsoddiad, darpariaethau newydd mewn perthynas á thâl salwch statudol a phensiynau, a chost bwyd a gwasanaethau.

4.2. Eleni hefyd, trwy holiadur aeth allan i ddarparwyr ar draws y rhanbarth, ymgeisiwyd i gael syniad o'r oriau gofal sydd ei angen fesul maes (Preswyl, Preswyl Dementia, Nyrsio a Nyrsio Dementia). Mae gwaith pellach i'w wneud o ran perffeithio'r ymarferiad yma i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn ddibynadwy ac o safon.

4.3. Er bod y gwaith yma wedi cael ei wneud trwy fod yn cydweithio ar draws y rhanbarth mae'r chwe awdurdod yn amrywio'r cynnydd canrannol a gynigir fesul maes ar gyfer 2017/18 yn ddibynnol ar eu blaenoriaethau a'u marchnadoedd lleol.

4.4. Mae'r canran o gynnydd ar gyfer pob maes yn ddibynnol ar yr oriau gofal y tybir sydd ei angen fesul maes, a chytunir ar hynny'n rhanbarthol. Mae'r canran o gynnydd hefyd yn ddibynnol ar ein penderfyniad fel Awdurdod Lleol ynglŷn â'r canran *Return on Investment* i'r darparwr y tybir sy'n rhesymol a fforddiadwy ar gyfer y pedwar maes.

4.5. Rhagwelir fod y cynnydd a gynigir yn y tabl isod ar gyfer oll o'r meysydd yn cyfarch yn llawn yr hyn sydd wedi ei amcangyfrifo fel chwyddiant cyflog byw ar gyfer 2017/18 (4.2%).

4.6. Noder fod y canran cynnydd yn llai ar gyfer gwlâu preswyl safonol, a hynny

gan fod y pwysau a'r pryderon mwyaf yng Ngwynedd i'w weld yn y maes nyrsio yn gyffredinol a'r ddarpariaeth dementia mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Yn ogystal â hyn, mae gennym yng Ngwynedd ddarpariaeth breswyl yn fewnol sydd wrth gwrs yn gystadleuol ac felly hefyd yn dylanwadu ar y farchnad.

4.7. Wrth bennu'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2017-18 mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi gorfod cydbwyso anghenion gofal yn erbyn amrediad o alwadau cyllidol, blaenoriaethau strategol a'r arbedion y bydd rhaid eu cyflawni dros y 2 mlynedd nesaf.

4.8. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ffioedd presennol a'r ffioedd a gynigir ar gyfer 2017-18.

| **Categori Gofal** | **2016-17** | **2017-18** | **Cynnydd canrannol** |
|---|---|---|---|
| Preswyl | £483.46 | £507.45 | 4.96% |
| Preswyl – Dementia/EMI | £532.07 | £566.75 | 6.52% |
| Nyrsio | £546.27 | £587.23 | 7.50% |
| Nyrsio – Dementia/EMI | £573.28 | £617.93 | 7.79% |

4.9. Nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd at Ofal Nyrsio.

4.10. Dangosir dadansoddiad manwl o'r ffi fel y mae ar hyn o bryd, y ffi argymhellir a'r cynnydd argymhellir yn **Atodiad 1**.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Gweithredu'r penderfyniad (Rhan 1.1 o'r adroddiad hwn) ar y 01.04.17.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Mewn Fforwm Darparwyr ar y 16 o Chwefror cyflwynwyd y ffioedd arfaethedig ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol ac roedd cydnabyddiaeth i ymdrechion y Cyngor o ran buddsoddi a sefydlogi'r farchnad fregus hon - yn enwedig Gofal Nyrsio a Gofal Dementia. Eglurwyd yn y Fforwm y byddem yn derbyn rhagor o sylwadau yn ystod y cyfnod yn dilyn i fyny i gyfarfod y Cabinet 7fed o Fawrth ac felly, os yn berthnasol, byddwn yn adrodd eu sylwadau ar lafar yn y cyfarfod.

## 7. DYFARNIAD ACHOS LLYS

7.1 Ar y 26ain Ebrill, 2017, bydd apêl achos llys *R(on the application of Forge Care Homes Ltd) v Cardiff and Vale University Health Board* yn cael ei glywed yn y

Goruchaf Lys. Mae posibilrwydd y gall dyfarniad yr achos hwn gael effaith ar y ffioedd a argymhellir yma, ond bydd rhaid ystyried y sefyllfa ymhellach wedi'r dyfarniad ddod i law.

## 8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

8.1 Ystyrir y byddai'r ffioedd a gynigir uchod yn hybu datblygiad cynaliadwy a llesiant yr ardal yn bennaf yn economaidd a chymdeithasol. Mae'r ffioedd a gynigir yn sicrhau'r cynnydd mwyaf yn y meysydd ble mae pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd fel rhan o ymgais i geisio sefydlogi'r farchnad hon.

9.1**. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Mae'r cynigion sydd gerbron wedi bod yn destun trafod manwl eisoes. Yn amlwg, fel y mae'r adroddiad yn nodi, fe allai'r dyfarniad llys a ddisgwylir newid y sefyllfa ond, yn amodol ar hynny, mae'r cynigion yn ymddangos yn briodol.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Fel y nodir bod achos cyfreithiol yn yr arfaeth all gael dylanwad ar y sefyllfa. Fodd bynnag mae'n briodol fod y Cabinet yn symud ymlaen gyda'r penderfyniad yma a gellir ymateb i unrhyw newid yn y sefyllfa gyfreithiol os cyfyd.

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r costau, gan gynnwys y ffactorau crybwyllir yn yr atodiad i'r adroddiad, cyn argymell lefelau ffioedd addas i'w talu i'r cartrefi gofal annibynnol yn ystod 2017/18. Darparwyd yn briodol ar gyfer y gwariant perthnasol wrth lunio cyllideb y Cyngor ar gyfer 2017/18.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1**